# Ydych chi eisiau Cwtsh Creadigol?

Mae'n cynnwys adnoddau lles creadigol newydd i weithwyr GIG a gofal cymdeithasol Cymru.

Mae'n cynnwys gweithgareddau hwyliog i ymlacio a pheidio meddwl am y gwaith drwy ffyrdd creadigol o wella eich lles.

Chi sy'n penderfynu pryd i wneud y gweithgareddau byrion yng nghwmni'r artist a greodd y syniad. Ydych chi am roi cynnig ar ddawnsio Bollywood neu beintio portread? Beth am wneud ychydig o grefft neu ysgrifennu nofel? Hoffech ganu neu dynnu lluniau gwell? Mae yma gynnwys gwych yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws yr holl gelfyddydau. Mae'n addas i ddechreuwyr a'r rhai sy'n gwella.

Dyma gynnig y Cwtsh: **https://cwtshcreadigol.cymru**

Mae'n gwtsh rhithiol a rhywiog. Dyma ffordd y sector o ddiolch am waith clodwiw holl staff y GIG a gofal cymdeithasol. Gobeithio y daw â hwyl ac ysbrydoliaeth ichi. Rhowch gynnig arni a lleisiwch eich barn drwy e-bostio: cwtshcreadigol@celf.cymru neu drwy'r ffurflen ar wefan Cwtsh.

Cafodd Cwtsh Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru ei greu gydag artistiaid o bob cwr o Gymru. Diolch i Lywodraeth Cymru am ei ariannu.